Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

# y diweddaraf o'r ystafell newyddion

Yr Hydref 2023



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

# croeso

Yr Hydref 2023

## Awel y Môr yn cyrraedd carreg filltir enfawr

Ar ôl pum mlynedd o waith, gan gynnwys gwaith ymgynghori ac ymgysylltu manwl gydag aelodau o'r cyhoedd, cynghorau, cynrychiolwyr etholedig a grwpiau eraill, roeddem wrth ein bodd i glywed y newyddion bod Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr wedi cael Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Claire Coutinho, ar 20fed Medi 2023.

Dywedodd Tamsyn Rowe, Arweinydd Prosiect RWE ar gyfer Awel y Môr: "Gyda'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn ei le ar gyfer Awel y Môr, rydyn ni wedi cyrraedd carreg filltir bwysig ar ein siwrnai tuag at gyflwyno fferm wynt ar y môr sy'n gallu rhoi pŵer i dros hanner miliwn o gartrefi gydag ynni glân, adnewyddadwy.

"Rydyn ni'n gobeithio sicrhau ein trwydded forol yn ystod y misoedd nesaf wrth i ni ddechrau cwblhau'r cynlluniau adeiladu."


Ychwanegodd Danielle Lane, Cyfarwyddwyr Datblygu RWE ar gyfer y DU ac Iwerddon: "Ochr yn ochr â fferm wynt gyntaf y DU ar y môr ar raddfa fasnachol yn North Hoyle, sy'n parhau i gael ei gweithredu gan RWE, mae Awel y Môr wrth wraidd ein cynlluniau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy."

## Ymchwiliadau Safleoedd ar y Môr

Mae'r tîm prosiect wrthi'n paratoi ar gyfer ein harolygon i ymchwilio safleoedd ar y môr, sydd i fod i ddechrau nes ymlaen yr hydref hwn.

Bydd hyn yn cynnwys defnyddio bad sy'n arnofio gyda choesau symudol sydd ynghlwm wrth gorff y bad, sef bad codi, i ddrilio tyllau turio yng ngwely'r môr i gymryd samplau, gyda'r gwaith i fod i gymryd tua chwe mis.

Bydd y data daearegol sy'n cael ei gasglu yn cael ei ddefnyddio i lywio'r cynllun a'r dulliau adeiladu, pan ddaw i osod y tyrbinau gwynt.



# Diweddariad am Raglen Ymgysylltu Tryloywder Cyflenwyr (STEP) RWE

Yn ein cylchlythyr diwethaf, fe wnaethom eich diweddaru am ddigwyddiad ar gyfer y gadwyn gyflenwi a gynhaliwyd yn Llandudno ym mis Ebrill.

Mae'r prosiect yn annog unrhyw gwmni sydd â diddordeb ym mhrosiect Awel y Môr i gofrestru ar brif porth caffael RWE (**www.rwe.com/en/products-and-services/supplier-portal**) ac yn ogystal, cofrestrwch ar gyfer menter STEP fan hyn (**rwe.supplierengagementplatform.com**)

Mae STEP, ochr yn ochr â phorth caffael RWE, yn adnodd sydd wedi'i anelu at ymgysylltiad cynnar, parhaus a rhagweithiol â'r gadwyn gyflenwi, waeth beth fo'r cyfleoedd tendro.

Drwy ddefnyddio STEP, gall cwmnïau gael y wybodaeth ddiweddaraf am gerrig milltir y prosiect, digwyddiadau, newyddion caffael, cymorthfeydd galw heibio i gyflenwyr a mwy.

Mae'r fenter STEP hefyd wedi cyrraedd rhestr fer 'Arloesedd Cadwyn Gyflenwi y Flwyddyn' yng Ngwobrau Gwynt ar y Môr Byd-eang Renewables UK am ei ddull arloesol o ymgysylltu â chyflenwyr, gyda'r canlyniadau i'w cyhoeddi ym mis Tachwedd.



## Yr Arolygiaeth Gynllunio: Y Broses o Wneud Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu

Tua dwy flynedd

### Cyn ymgeisio:

Chwiliwch am wybodaeth yn y cyfryngau lleol ac mewn mannau cyhoeddus ger lleoliad y prosiect arfaethedig, fel eich llyfrgell. Bydd y datblygwr yn datblygu eu cynigion ac yn ymgynghori'n eang.

28 diwrnod

### Derbyn:

Mae gan yr arolygiaeth, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, 28 diwrnod i benderfynu a ydy'r cais yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i'r cam archwilio gan gynnwys a ydy'r datblygwr wedi ymgynghori digon.

Tua 4 mis

### Rhag-archwilio:

Gallwch chi nawr gofrestru fel parti sydd â diddordeb; byddwch chi'n cael gwybod am hynt y cais a chyfleoedd i gyflwyno eich achos chi. Bydd arolygwyr yn cynnal Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn llunio'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.

rydym yma

6 mis

### Archwilio:

Gallwch chi nawr anfon eich sylwadau ysgrifenedig. Gallwch wneud cais i siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus. Mae gan yr arolygiaeth chwe mis i gynnal yr archwiliad.

6 mis


### Penderfyniad:

Bydd yr arolygiaeth yn cyhoeddi argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn dri mis arall i gyhoeddi penderfyniad ynghylch y cynnig.

6 wythnos

### Ar ôl y penderfyniad:

Mae cyfle i herio'r penderfyniad yn gyfreithiol.



# Plant ysgol yn ymweld â fferm wynt ar y tir fwyaf gogledd Cymru

Croesawodd RWE dros 100 o blant ysgol i Fferm Wynt Coedwig Clocaenog ynghyd â chydweithwyr o Vestas a Grŵp Llandrillo Menai.

Rhoddodd yr ymweliad gyfle i ddisgyblion Ysgol Dyffryn Conwy, yn Llanrwst, weld sut mae tyrbinau gwynt RWE yn gweithio ac yn cael eu cynnal, sut mae safleoedd yn cael eu datblygu a'u hadeiladu, y gwahanol yrfaoedd sydd ar gael ym maes ynni adnewyddadwy, yn ogystal â'r cynnydd gyda'r prosiect ecoleg ar y safle.

Mae gan Goedwig Clocaenog, a sefydlwyd yn 2022, gapasiti cynhyrchu o 96MW, sy'n cyfateb i anghenion 63,800 o gartrefi ac mae'n defnyddio'r un generaduron tyrbin â'r rheini sydd ar waith yn fferm wynt ar y môr fwyaf Cymru ar hyn o bryd, sef Gwynt y Môr.

Mae ymweliadau fel hyn yn cefnogi'r cwricwlwm newydd i Gymru sy'n cynnwys gwersi ar newid hinsawdd ac ynni adnewyddadwy.

Roedd disgyblion yn gallu gweld a dysgu am sut mae' tyrbinau gwynt yn gweithio, rôl Cymru wrth i'r DU geisio cyrraedd sero net erbyn 2050, a sut mae'r prosiect hwn a phrosiectau'r dyfodol yn cyfrannu at hynny.

Dywedodd Carl Thatcher, athro ffiseg yn Ysgol Dyffryn Conwy: "Mae'r bartneriaeth â RWE a'r ymweliad safle wedi bod o fudd mawr i'r disgyblion gan eu bod yn gallu gweld yn glir yr hyn rydyn ni'n sôn amdano yn y dosbarth a chael profiad bywyd go iawn o'r hyn sy'n digwydd yn y byd o ran newid hinsawdd".

Dywedodd Mark McDonough, hyfforddwr gweithredu a chynnal tyrbinau gwynt ac asesydd yng Ngrŵp Llandrillo Menai: "Roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion ysgol weld tyrbin gwynt yn agos gyda'u llygaid eu hunain, ac roedd eu gweld yn cymryd diddordeb yn wych ac roeddwn yn falch o allu helpu i ateb eu cwestiynau am adeiladu, gweithredu a chynnal fferm wynt.

"Pwy a ŵyr – efallai y byddwn ni'n eu gweld nhw yn y dyfodol fel y genhedlaeth nesaf o dechnegwyr tyrbinau gwynt!"







Plant Ysgol Dyffryn Conwy yn Fferm Wynt RWE yng Nghoedwig Clocaenog